**LC418**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

Mae hwn yn ychwanegu mesurau rheoli ychwanegol dros dro at Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Diwygiadau Tybiedig**

Fel sydd wedi'i nodi yn erthygl 2(1) nid yw testun gorchymyn 1995 yn cael ei ddiwygio gan y gorchymyn hwn. Yn hytrach bydd yn cael effaith "fel pe bai wedi'i ddiwygio" yn unig. Felly bydd y diwygiadau tybiedig yn peidio â chael effaith pan ddaw effaith y gorchymyn presennol i ben ar 1 Rhagfyr 2002.

Awgrymir, fodd bynnag, y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr pe bai'r cysyniad "fel pe bai wedi'i ddiwygio" wedi cael ei bwysleisio drwy ddefnyddio'r geiriad "shall apply as if amended" yn erthygl 2(1) a chan ailadrodd "as if" ar gyfer bob un diwygiad wedi hynny ee –

> "Article 2(1) shall have effect as if the following definitions were inserted in the appropriate places …".

**Nodyn Esboniadol**

Gan fod y gorchymyn hwn yn gymwys am gyfnod cyfyngedig, byddai wedi bod o gymorth pe bai’r dyddiad dod i ben wedi’i gynnwys yn y Nodyn Esboniadol.

**Tudalen 3, troednodyn (c)**

Mae angen enw cyflawn.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Chwefror 2002